

## Archwilio ac adrodd ar gyflwr simneiau ac offer

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud ag archwilio ac adrodd ar **offer, gwasanaethau a systemau** simneiau a thanwydd solet gydag allbwn o hyd at 50kW, sy'n gweithredu o dan wasgedd ffliw negyddol a'r rhai heb systemau rheoli electronig mewnol. Mae'n cynnwys archwilio'r holl systemau ffliw nad ydynt wedi'u gwneud o blastig.

Bydd hyn yn cynnwys dehongli **dogfennau a manylebau** a dilyn arferion a chanlyniadau gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol. Gwneir hyn yn unol â **gweithdrefnau'r sefydliad** sy'n cyfateb i'r **dogfennau a'r manylebau** statudol a deddfwriaethol cyfredol neu'n rhagori arnynt

Mae'r safon hon ar gyfer pobl sy'n gweithio ym maes galwedigaethol Simneiau a gall gweithwyr, goruchwylwyr a rheolwyr ei defnyddio

Mae modd gweld disgrifiad o'r termau sydd mewn testun trwm yn y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon yn yr Eirfa, y dylid ei defnyddio fel pwynt cyfeirio

Archwilio ac adrodd ar gyflwr simneiau ac offer

## Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

### Cynllunio a pharatoi gweithgareddau gwaith

P1 nodi, cofnodi a chytuno ar ofynion gwaith y cleient yn unol â **dogfennau a manylebau a gweithdrefnau'r sefydliad**

P2 edrych ar y safle gwaith a bwrw golwg dros y **dogfennau a'r manylebau** am unrhyw nodweddion strwythurol allweddol a diffygion presennol a allai effeithio ar ddefnyddio'r gosodiad yn ddiogel neu ar ei berfformiad, a'u cofnodi er mwyn rhoi gwybod i'r holl bartïon sydd â diddordeb am y canfyddiadau hyn

P3 gwneud yn siŵr bod cyflwr, maint, lleoliad ac argaeledd yr holl **wasanaethau a systemau** yn bodloni'r **dogfennau a'r manylebau** ar gyfer gofynion y gosodiad

P4 gweithio yn unol ag asesiad risg a datganiad dull a'u diwygio yn ôl yr angen, gan gynnwys y canlynol, ond nid y rhain yn unig:

- gweithio mewn mannau uchel
- llithro, baglu a chwympo
- taro gan wrthrychau sy'n disgyn neu'n symud
- codi a chario
- materion iechyd
- peryglon uwchben
- ffynonellau pŵer
- sylweddau peryglus
- cael eich dal gan rywbeth sy'n cwmpo neu'n troi drosodd
- lleoedd cyfyng
- tân
- rhwystrau
- cerbydau sy'n symud
- dŵr
- diogelwch ar y safle
- diogelu eiddo'r cleient
- diogelu'r ardal waith
- galwedigaethau a chleientiaid eraill y mae'r gwaith yn effeithio arnynt
- cyfleusterau lles
- gwarchodaeth 3ydd parti

P5 diogelu safle'r gwaith ac adeiledd yr adeilad rhag difrod posibl a achosir yn ystod yr archwiliad

P6 gwirio a chadarnhau bod yr holl ddeunyddiau, offer a chyfarpar a allai fod yn angenrheidiol ar gyfer yr archwiliad y cytunwyd arno ar gael yn ôl yr angen, o fewn y graddnodau iawn ac yn gweithio'n iawn

P7 cynnal yr archwiliad gan leihau'r difrod i'r adeilad a'r hyn sydd o'i gwmpas

P8 gwirio lleoliad y system fflw a'r **offer** i gadarnhau eu bod yn y lleoliad iawn ac yn bodloni'r cliriadau sy'n ofynnol gan y **dogfennau a'r manylebau**

P9 gwneud yn siŵr bod digon o awyru i sicrhau bod digon o aer hylosgi ar gael i fodloni'r perfformiad a'r canlyniadau amgylcheddol sy'n ofynnol gan y **dogfennau a'r manylebau**

P10 defnyddio'r gweithdrefnau cywir i gadarnhau bod cyfanrwydd y system fflw a'r **offer** yn bodloni'r **dogfennau a'r manylebau**

P11 cynnal y profion canlynol i sicrhau bod perfformiad y system fflw a'r **offer** yn **bodloni'r dogfennau a'r manylebau** cyfredol

- prawf mwg I
- prawf mwg II
- prawf gollyngiadau
- archwiliad fflw mewnol
- archwiliad allanol

P12 gwirio bod y gosodiad cyflawn yn cydymffurfio â'r **dogfennau a'r manylebau** a chadarnhau bod gweithgynhyrchwyr wedi'u cymeradwyo'n ysgrifenedig os oes angen

P13 gwneud yn siŵr bod digon o ddata ar gael yn barhaol gyda'r gosodiad a'i fod yn gyfredol ac wedi'i leoli'n gywir

P14 gwneud yn siŵr bod y system fflw a'r **offer** yn gweithio yn unol â'r bwriad o ran hylosgi a pherfformiad amgylcheddol fel sy'n ofynnol gan y **dogfennau a'r manylebau**

P15 gwirio bod dull o ganfod gollyngiadau Carbon Monocsid (CO) wedi'i ddarparu sy'n bodloni'r **dogfennau a'r manylebau**, gan gynnwys y canlynol:

- lleoliad a dyddiad dod i ben
- ei brofi yn ôl cyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchydd

### **Defnyddio a chyfleu data a gwybodaeth**

P16 cysylltu â phreswylwr yr eiddo a phartïon eraill y bydd y gwaith yn effeithio arnynt yn ystod y prosesau cynllunio ac arolygu

P17 defnyddio'r **dogfennau a'r manylebau** i sicrhau bod yr archwiliad yn cael ei wneud yn unol â gofynion y contract

P18 rhoi gwybod am unrhyw oedi i'r gwaith, sefyllfaoedd anniogel a chamau unioni gofynnol i'r rhai y mae angen yr wybodaeth arnynt

P19 cwblhau'r holl gofnodion a dogfennau i fodloni **gweithdrefnau'r sefydliad**

P20 gwirio a yw'r corff cofrestru perthnasol wedi cael gwybod am y gosodiad ac a oes digon o wybodaeth ar gael ar y safle am y system fflw a'r **offer** fel sy'n ofynnol gan y **dogfennau a'r manylebau**

P21 llunio adroddiad i gofnodi'r broses archwilio, canlyniadau'r archwiliad, y profion ac unrhyw argymhellion ar gyfer gwaith adfer, er mwyn bodloni **gweithdrefnau'r sefydliad** a'r **dogfennau a'r manylebau**

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### Mae angen i chi wybod a deall:

#### **P1 Cynllunio a pharatoi gweithgareddau gwaith**

K1 y rheoliadau a'r canllawiau sy'n rheoli iechyd a diogelwch yn y gweithle, diogelu'r amgylchedd a defnyddio asesiadau risg

K2 sut i gael gfael ar yr wybodaeth ofynnol a'i dehongli'n gywir i sicrhau bod yr arolygiad yn bodloni gofynion y **dogfennau a'r manylebau**

K3 terfynau eich annibyniaeth, eich gallu a'ch cyfrifoldeb eich hun a phryd mae angen cydweithredu a chysylltu ag eraill

K4 pam ei bod yn bwysig a sut mae archwilio a phrofi gosodiadau presennol gan gyfeirio at yr ardal waith, yr **offer** a'r systemau fflw

K5 pam ei bod yn bwysig a sut mae cynnwys ffactorau iechyd, diogelwch ac amgylcheddol yn yr asesiad risg a'r datganiad dull ar gyfer archwilio ac adrodd ar systemau fflwiau ac **offer**

K6 y dulliau gweithio sy'n diogelu addurn yr adeilad, eiddo cwsmeriaid a systemau a chydannau presennol

K7 yr offer a'r cyfarpar sydd eu hangen i ddarparu mynediad diogel at waith mewn mannau uchel, neu mewn mannau cyfyng

K8 gofynion gofal a chynnal a chadw offer a chyfarpar, a threfniadau gwirio i sicrhau eu bod yn ddiogel

K9 y gweithdrefnau archebu, cyflenwi, cynghori, gwirio a danfon ar gyfer yr offer, y cyfarpar, y deunyddiau a'r cydrannau sydd eu hangen i gynnal yr archwiliad

K10 sut i gael gfael ar y **dogfennau a'r manylebau** a'u dehongli i sicrhau bod yr archwiliad yn cael ei gynnal i fodloni'r gofynion canlynol:

- y sefydliad
- cwmni
- contract

K11 sut mae archwilio, profi a chofnodi manylion y gosodiad er mwyn bodloni'r **dogfennau a'r manylebau**, yn enwedig bod y dynodiadau fflw ar gyfer y cydrannau a ddefnyddir yn gywir ar gyfer y defnydd

K12 pwysigrwydd dulliau ynysu diogel, profion a gweithdrefnau i archwilio'r ardal waith,

## Archwilio ac adrodd ar gyflwr simneiau ac offer

yr **offer**, y **systemau** neu'r cydrannau

K13 pam ei bod yn bwysig a sut mae labelu gosodiadau neu **systemau** diffygiol yn briodol er mwyn tynnu sylw darpar ddefnyddwyr a phobl gyfrifol at eu diffygion

**P2 Defnyddio a chyfleu data a gwybodaeth**

K14 yr angen i gysylltu ag eraill y gellid effeithio ar eu gweithgareddau neu eu harferion a lle gallai fod angen cydweithredu â gwasanaethau eraill

K15 arferion a safonau gwaith y diwydiant ar gyfer archwilio ac adrodd ar **offer** a systemau fflw yn unol â'r **dogfennau a'r manylebau**

K16 y gofynion lleoli a gosod ar gyfer systemau ac **offer** fflw i gydymffurfio â'r **dogfennau a'r manylebau**

K17 y gweithdrefnau a'r dulliau gweithio ar gyfer archwilio a phrofi systemau fflwiau ac **offer** yn erbyn y **dogfennau a'r manylebau** i wirio'r canlynol:

- bod awyru yn gallu darparu digon o aer hylosgi i'r **offer**
- bod modd cyflawni perfformiad hylosgi effeithlon ac effeithiol
- bod perfformiad y system fflw yn ddigonol i gael gwared ar gynhyrchion hylosgi
- nad oes gormod o ollyngiadau o **offer** caeedig pan fo'r drws ar agor
- na fydd y deunydd llosgadwy yn cyrraedd tymheredd sy'n ddigon i ddirywio
- bod mesurau rhybuddio am ryddhau CO yn effeithiol wedi'u lleoli yn y manau cywir a'u bod yn gweithio yn ôl y bwriad
- bod dogfennau gosod a data digonol sy'n ymwneud â'r system fflw a'r **offer** ar gael yn barhaol ar y safle

K18 egwyddorion drafft fflw simnai a'r dyluniad gan gynnwys y canlynol, ond nid y rhain yn unig:

- awyru mecanyddol
- drafft fflw naturiol
- drafft fflw wedi'i orfodi
- digon o ddrafft simnai i wacáu cynnyrch hylosgi
- uchder effeithiol i'r fflw
- arwynebedd effeithiol i'r fflw
- effaith plygiadau a chyfyngiadau
- effaith lleoliad allfa'r fflw
- y rhyngweithio â gorchudd yr adeilad a'r topograffi
- effeithiau meteorolegol

K19 egwyddorion hylosgi gan gynnwys y canlynol, ond nid y rhain yn unig:

- ansawdd digonol y tanwydd
- tymheredd hylosgi
- digon o aer hylosgi
- effaith perfformiad hylosgi ar allyriadau

## Geirfa

### Gweithdrefnau'r sefydliad

Y Sefydliad

Yswiriant - atebolrwydd cyflogwyr, cynnyrch a chyhoeddus, indemniad proffesiynol

### Dogfennau'r cwmni

contract gwaith, cynllun rheoli diogelwch, rheoliadau Dylunio a Rheoli Adeiladu, polisi amgylcheddol, gweithdrefn gwyno, polisi diogelwch a phreifatrwydd gwybodaeth, strwythur rheoli

### Safle gwaith

Yr ardal lle bydd y cyfarpar yn cael eu gosod a'r holl ardaloedd y bydd y gwaith yn effeithio arnynt, gan gynnwys nodweddion topograffig ac amodau meteorolegol

### Gwasanaethau a systemau

Systemau simneiau a ffliwiau, offer, systemau awyru a chyfleustodau priodol

### Dogfennau a manylebau

Cyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwyr ar gyfer yr holl gyfarpar sy'n rhan o'r gwaith cynlluniau'r pensaer a dogfennau penodol i'r safle rheolau a rheoliadau adeiladu lleol

Deddfwriaeth waliau cydrannol

Deddf Aer Glân

Deddf yr Amgylchedd

Parthau rheoli mwg

Datblygu a ganiateir

Ardaloedd cadwraeth

Statws treftadaeth

Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol

Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

anghenion penodol tanysgrifenwyr yswiriant

Rheoliadau adeiladu yng Nghymru a Lloegr, yn enwedig ADJ ond hefyd ADA, ADB, ADF, ADL ac AD7

Llawlyfr Technegol Safonau Adeiladu yn yr Alban

Llyfrynau Technegol yng Ngogledd Iwerddon, yn enwedig B, D, E, F1, F2, K ac L BSEs, yn enwedig 8303, 15287, 1856, 16510, 1251, 3376, 4834, 12815, 13229, 13240, 15250

**Noder:** Mae'n bosibl y bydd dogfennau technegol a BSEN yn cael eu tynnu'n ôl neu eu disodli yn ystod rhaglenni adolygu. Felly mae'n bwysig gwirio pa mor gyfredol a dilys yw pob dogfen o'r fath i sicrhau eich bod yn cyfeirio at y fersiwn gywir.

### Offer

Offer llosgi tanwydd solet gydag allbwn o hyd at 50kW gan gynnwys y canlynol, ond nid y rhain yn unig:

- tanau agored
- gwresogyddion ystafelloedd sy'n sefyll ar eu pen eu hunain
- gwresogyddion ystafelloedd wedi'u mewnosod
- poptai sy'n sefyll ar eu pen eu hunain
- boeleri annibynnol

## Archwilio ac adrodd ar gyflwr simneiau ac offer

---

- stofiau sy'n rhyddhau gwres yn araf



## Archwilio ac adrodd ar gyflwr simneiau ac offer

Datblygwyd gan	CITB
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	31 Rhag 2022
Dyddiad Adolygu Dangosol	31 Rhag 2027
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	CITB
RCU gwreiddiol	COSVR826
Galwedigaethau perthnasol	Crefftau Adeiladu
Cyfres/Set	Galwedigaethau Simneiau
Geiriau Allweddol	Simnai; Tanwydd solet; Offer; System fflw;